

# Tyfu Canolbarth Cymru
# Cylchlythyr mis Awst 2024

Croeso i rifyn mis Awst o gylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru. Y mis hwn, rydym yn gyffrous i ddod â'r newyddion diweddaraf i chi o bob rhan o'r rhanbarth, gan gynnwys datblygiadau gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol sydd bellach â'i gwefan ei hun.

Byddwch hefyd yn cwrdd â'n Swyddog Ynni Rhanbarthol newydd, Huw Williams, sy'n chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo nodau'r rhanbarth ar gyfer trosglwyddo ynni.

Yn ogystal, peidiwch â cholli'r diweddariadau ar y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2024 a chyfleoedd ar gyfer Hyfforddiant Llythrennedd Carbon am ddim ym Mhowys.

Cadwch yn wybodus ac wedi'ch ymgysylltu â'r cynnydd sy'n siapio dyfodol Canolbarth Cymru.

Helpu i dyfu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

*Tîm Tyfu Canolbarth Cymru*

[Clawr: Teithio llesol, Promenâd Aberystwyth ©Croeso Cymru]

## Cynnwys


- Gwefan newydd sbon ar gyfer y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Diweddariad Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2024


- Cwrdd â'r Tim: Huw Williams - Swyddog Ynni Rhanbarthol
- Newyddion eraill

## Gwefan newydd sbon ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

Rydym yn falch o rannu gyda chi fod y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) bellach a'i wefan ei hun. Bydd hyn yn rhoi llwyfan i'r tîm gysylltu â busnesau a sefydliadau ar draws y rhanbarth a darparu gwybodaeth i fusnesau megis cyllid, polisi Llywodraeth Cymru, ymgynghoriadau sector ac arolygon.

Bydd hefyd yn llwyfan ar gyfer Arsyllfa Data *Data Cymru* - gan gynnig amrywiaeth o'r data cadarn diweddaraf sy'n ymwneud â'r economi, addysg a hyfforddiant ôl-16, cymwysterau, yr iaith Gymraeg, a'r gweithlu ar gyfer Canolbarth Cymru.

Edrychwch arno nawr! Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru - Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (psrhcanolbarth.cymru)





*1 - https://psrhcanolbarth.cymru/*

## Diweddariad Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2024

Yn ddiweddar, datgelodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (PSRh) ei diweddariad i'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022-2025. Mae'n mynd i'r afael ag anghenion cyflogaeth a sgiliau sy'n esblygu yn y rhanbarth gan adlewyrchu twf sectorau a'r galwadau economaidd.

Mae'r cynllun yn darparu dadansoddiad cyflogaeth a sgiliau ar gyfer y sector Bwyd a Diod, sef y sector sy'n rhagweld y gyfradd twf uchaf o 9% rhwng 2022 - 2028 allan o'r holl sectorau a amlinellir yn y cynllun.




Gallwch weld y dadansoddiad cyflogaeth a sgiliau ar gyfer yr holl sectorau canlynol yn y cynllun: Uwch Weithgynhyrchu a Pheirianneg, Amaethyddiaeth, Adeiladu, Ynni, Digidol, Bwyd a Diod, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Sector Cyhoeddus, Twristiaeth a Hamdden, a Thrafnidiaeth a Logisteg.

Mae'r rhagamcanion hyn hyd at 2028, gan roi syniad o gyfeiriad twf posibl pob sector yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn adlewyrchu gweithgarwch recriwtio cyfredol ym mhob sector drwy edrych ar nifer y swyddi dros amser, cyflogwyr allweddol sy'n recriwtio ar hyn o bryd, a'r sgiliau sydd eu hangen.

## Cwrdd â'r Tîm

### Huw Williams Swyddog Ynni Rhanbarthol




**Pryd y gwnaethoch ddechrau gyda'r tîm?**

*Dechreuais weithio i Dyfu Canolbarth Cymru ym mis Mai. Cyn ymuno, fe wnes i gwblhau cwrs MSc mewn Cynaliadwyedd mewn Darparu Ynni a Rheoli Galw. Wrth gwblhau fy Ngradd Meistr yn y Ganolfan Technoleg Amgen ym Machynlleth, fe wnes i weithio fel swyddog hwb Undeb Rygbi Cymru ar gyfer Ponthafren sef elusen iechyd meddwl yn fy nghymuned leol. Roedd gweithio yn fy nghymuned a gweld yr effaith cadarnhaol yn uniongyrchol ar bobl leol yn agwedd allweddol ar fy mhenderfyniad i ymgeisio am y rôl hon.*

**Allwch chi ddweud mwy wrthym am eich rôl?**

*Fel Swyddog Ynni Rhanbarthol, rwy'n ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol Powys a Cheredigion, yn ogystal â rhanddeiliaid lleol eraill, i ddarparu cyngor technegol a strategol ynghylch y newid i sero net. Rhan o hyn yw cefnogi'r rhanbarth i ddilyn y Cynlluniau Ynni Ardal Leol.*

**Beth yw eich blaenoriaethau presennol?**

*Bydd y Cynlluniau Ynni Ardal Leol (CYALl) yn cael eu cyhoeddi'n fuan a bydd hyrwyddo'r rhain yn flaenoriaeth allweddol, rydym am sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael gwybod am ei allbynnau. Rwyf hefyd yn dadansoddi canlyniadau ein harolwg cynllun ynni ardal leol, er mwyn deall canfyddiad pobl o'r newid i sero net yn well. Rwyf hefyd wedi bod yn gweithio ar alinio allbynnau'r CYALl â Chofrestr Tasg Ynni Rhanbarthol Canolbarth Cymru, er mwyn osgoi ailadrodd gwaith a sicrhau llif gwaith symlach.*

*Mae'r Gofrestr yn rhan o'r ymdrech ehangach i ddatganoli a gwella rheolaeth ynni ar lefel ranbarthol. Mae'n gysylltiedig ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio'r system ynni, cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy lleol, a sicrhau diogelwch ynni wrth hyrwyddo datblygiad economaidd.*

**Pa ddatblygiadau yr ydych wedi'u gweld dros y blynyddoedd?**

*Rwy'n falch o fod o Ganolbarth Cymru, ac rwyf wedi gweld datblygiadau enfawr wrth gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y rhanbarth yn enwedig o ran gwynt ar y tir. Fodd bynnag, nid yw'r datblygiadau yn y maes hwn wedi cyrraedd eu botensial llawn eto, yn enwedig o ran ynni cymunedol a Systemau Ynni Lleol Clyfar. Rwy'n awyddus iawn bod y newid i sero net yn un cadarnhaol i bawb.*

**Beth yw eich cyflawniad mwyaf?**

*Graddio gyda gradd meistr yn ddiweddar; roedd fy nhraethawd yn edrych ar fuddion eilaidd posibl gosodiadau ynni adnewyddadwy, yn enwedig y manteision iechyd a lles a allai fod yn bosibl trwy newid mewn prisio a rheoli.*

**Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:**

*Medrus*

## Newyddion eraill

### Hyfforddiant Llythrennedd Carbon am ddim ym Mhowys

Wedi'i ariannu gan y Gronfa Ffyniant Cyffredin, mae Canolfan y Dechnoleg Amgen (CYDA) yn cynnig Hyfforddiant Llythrennedd Carbon pwrpasol, wedi'i deilwra i anghenion eich sefydliad, yn rhad ac am ddim hyd at fis Rhagfyr 2024.

Mae CYDA yn ddarparwr blaenllaw hyfforddiant Llythrennedd Carbon, ac mae ganddynt amrywiaeth o gyrsiau unigryw wedi'u hachredu gan y Prosiect Llythrennedd Carbon. Gall y rhaglenni hyfforddiant hyn fod yn rhan allweddol o godi ymwybyddiaeth yn eich cymuned neu'ch sefydliad, ac wrth greu diwylliant carbon isel sy'n ymgysylltu yn llawn ac sy'n gallu cymryd camau effeithiol.

Darganfyddwch fwy yma: https://cy.cat.org.uk/hyfforddiant-llythrennedd-carbon-am-ddim-ym-mhowys/

## Edrych ymlaen

Hoffech chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Trydar:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad:  Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales